PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 11 RHAGFYR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Taylor(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lent, Lewis, Littlechild a/ac McGarry |

25 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw un.

26 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Littlechild fuddiant personol yn Eitem 5 oherwydd ei rôl yn gweithio i Eglwys y Bedyddwyr Heol Albany a Chymdeithas Dai Cadwyn yn bartner ar brosiect ailddatblygu'r Neuadd Gymunedol.

27 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

28 : ADOLYGIAD O'R FARCHNAD CARTREFI GOFAL

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Norma Mackie, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion; Jane Thomas, Cyfarwyddwr, Tai a Chymunedau Oedolion; Angel Bourge, Rheolwr Gweithredol, Strategaeth, Perfformiad ac Adnoddau a Maria Bell, Pennaeth Polisi ar gyfer y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol.

Atgoffwyd yr Aelodau fod Atodiad A, B a D yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a byddai angen cynnal unrhyw drafodaeth sy'n ymwneud â'r atodiadau hyn mewn sesiwn gaeedig.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Fe wnaeth yr Aelodau nodi a chydnabod y rhesymeg y tu ôl i'r dull pennu ffioedd blwyddyn ar gyfer 2024/25, gan ystyried yr heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r sector ar lefel genedlaethol. Nododd yr Aelodau y bwriad i ddychwelyd i Strategaeth Gosod Ffioedd tymor hwy pan fydd y cyd-destun ariannol yn caniatáu.

Croesawodd yr aelodau y mecanwaith codi ffioedd arfaethedig ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Wrth drafod ymgysylltu â darparwyr, mynegodd yr Aelodau bryder am yr ymateb gwael i Ymarfer Costau Gofal 2022 a 2023, gan gwestiynu effeithiolrwydd yr ymgynghoriad â darparwyr. Cynigiodd yr Aelodau y dylid cynnal adolygiad o'r Ymarfer Costau Gofal, gan ddweud na ddylai cymryd rhan yn yr ymgynghoriad fod yn feichus i ddarparwyr gofal.

Anogodd yr aelodau drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y mandad posibl i ddarparwyr gofal ymgysylltu dros y tymor hwy.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am y penderfyniad i beidio â darparu codiadau blynyddol i becynnau lle mae'r Cyngor yn talu uwchlaw'r ffi safonol, gan effeithio ar 254 o leoliadau, ac roeddent yn cwestiynu tegwch y dull hwn, yn enwedig o'i gymharu â chodiadau blynyddol ar gyfer yr holl leoliadau cartrefi gofal anableddau dysgu.

Wrth drafod Buddsoddiad Darparwyr, cydnabu'r Aelodau yr angen i ddarparwyr ymgymryd â buddsoddiad seilwaith, yn enwedig ar gyfer gofal arbenigol.

Cydnabu'r Pwyllgor yr ymdrechion aflwyddiannus blaenorol i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf ar gyfer darparwyr preifat gan annog ymdrechion parhaus i geisio cyllid ar gyfer darpariaeth gofal arbenigol.

Trafododd yr Aelodau waith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar deilwra ffioedd i ddarparwyr, gan ffafrio dull hyblyg dros ddull gosod ffioedd cyffredinol. Roedd yr aelodau o blaid parhau i gydweithio gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i archwilio a gweithredu dulliau gosod ffioedd hyblyg.

Nododd yr Aelodau fod Swyddogion yn obeithiol y byddai'r Fframwaith Model Hybrid arfaethedig yn Adroddiad y Cabinet yn mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth gofal arbenigol yn y ddinas.

Roedd yr Aelodau'n obeithiol y gallai'r fframwaith helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r Cyngor yn talu mwy na'r cyfraddau safonol a chefnogi datblygiad darparwyr Adran 16.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 29 : ARGYFWNG TAI YNG NGHAERDYDD

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau Oedolion a Dave Jaques, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu ac Adfywio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Atodiadau 1, 2, 3 a 7 yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym Mharagraff 16 o Ran 4 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Byddai angen cynnal unrhyw drafodaeth sy'n ymwneud â'r atodiadau hyn mewn sesiwn gaeedig.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Croesawodd yr Aelodau yr ymgynghoriad arfaethedig ar gynigion polisi yn ymwneud ag unigolion ar y rhestr aros tai a rhanddeiliaid allweddol.

Cododd yr Aelodau gwestiynau am bwysigrwydd yr ymgynghoriad gan bwysleisio pwysigrwydd alinio cynigion â chanlyniadau ymgynghori, yn enwedig os oes anghytundeb sylweddol.

Archwiliodd y Pwyllgor y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer cymhwyso bwriadoldeb, gan fynegi pryder am deuluoedd, yn enwedig y rhai â phlant, nad ydynt efallai wedi'u heithrio.

Wrth drafod cynigion llety y tu allan i Gaerdydd, nododd yr Aelodau y byddai'r cynigion hyn yn y sector rhentu preifat.

Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd cydweithio ag awdurdodau lleol eraill, yn enwedig o ran y ddyletswydd ddigartref ar gyfer unigolion neu deuluoedd sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar yr agwedd barhaol, yn benodol isafswm cyfnod tenantiaeth a gynigir o dan y trefniadau arfaethedig.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o’r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraff 16 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 30 : CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai diben yr eitem hon ar yr agenda oedd i Aelodau nodi adroddiad terfynol Ymchwiliad ar y Cyd y CDLIN a fyddai'n cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu APaPh i'w gytuno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ffurfiol ym mis Ionawr 2024.

PENDERFYNWYD: Nodi’r adroddiad.

## 31 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

## 32 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

26 Chwefror 2024, 10.00am (Craffu ar y Gyllideb)

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm